Cynllun Bolardiau - Heol Llanishen Fach

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mynegwyd pryderon gan Aelodau'r Ward Leol ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn ardal Heol Llanishen Fach (ger Sainsbury's) o amgylch cyffordd Thornhill Road. Adroddwyd bod cerbydau'n gyrru dros y droedffordd pan fydd rhai eraill yn aros i droi i mewn i faes parcio'r datblygiad masnachol (Sainsbury's). Felly, cynigir estyn y cynllun bolardiau a osodwyd ar y droedffordd ger Heol Llanishen Fach (ger Sainsbury's) er mwyn atal cerbydau rhag gyrru drosti yma.

Bu pryderon hefyd ynghylch cerbydau'n parcio ar y droedffordd sydd ar ffordd/lôn adael Ysgol Gynradd Llanisien Fach, sy'n atal cerddwyr rhag gweld yn dda wrth groesi'r ffordd rhwng rhifau 127 a 129 Heol Llanishen Fach ac sy'n gorfodi cerddwyr i gamu i'r ffordd. Dywedwyd hefyd bod cerbydau'n gyrru dros y droedffordd yn anghyfreithlon ac ymlaen ar hyd yr ardal i gerddwyr sydd o flaen yr eiddo masnachol; y tyb ydy fod cerbydau'n gwneud hyn er mwyn llwytho / dadlwytho yn agos at eiddo masnachol. Fodd bynnag, mae llinellau melyn dwbl hir ar ddwy ochr Heol Uchaf sy'n caniatáu i gerbydau lwytho / dadlwytho'n agos at yr eiddo masnachol.

Felly cynigir gosod bolardiau ar hyd y droedffordd ar ffordd/lôn adael Ysgol Gynradd Llanisien Fach rhwng 127 a 129 Heol Llanishen Fach a hefyd ar yr ardal i gerddwyr sy'n agos at y groesfan a reolir ar Heol Llanishen Fach.

Bydd gweithredu'r project hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd yn arbennig ar gyfer cerddwyr.

Gwybodaeth ychwanegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Bolard. Postyn wedi ei wneud o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

A Proud Capital
Prifddinas Falch

CARDIFF
CAERDYDD

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 20873289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **15/08/2017**.

Allwedd:

- Bolard Arfaethedig
- Bolard Presennol
- Stand Beiciau Presennol



A Proud Capital
Prifddinas Falch

CARDIFF
CAERDYDD

The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **15/08/2017**.

KEY:

- Proposed Bollard
- Existing Bollard
- Existing Cycle Stand